Companies House
for the record

TŶ'R CWMNÏAU

PWYLLGOR ARCHWILIO ARIANNOL

CYLCH GWAITH

5 CHWEFROR 2001 (5 RHAGFYR 2002)

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Bwrdd Llywio Tŷ'r Cwmnïau wedi sefydlu'r Pwyllgor Archwilio Ariannol, i gynorthwyo a chynghori'r Swyddog Cyfrifeg ar faterion archwilio ariannol a Llywodraethu Corfforaethol. Mae gwaith y Pwyllgor ar sail anweithredol.

2. Amcanion

2.1 Cynorthwyo'r Swyddog Cyfrifeg wrth gyflawni'i rwymedigaethau archwilio ariannol a Llywodraethu Corfforaethol, drwy ddarparu fforwm i drafod materion mewnol ac allanol mewn cysylltiad ag archwilio ariannol.

2.2 Hybu hyder mewn systemau rheolaeth fewnol, drwy gyflwyno elfen annibynnol a chanllawiau ynghylch rheoli ariannol a rheoli mewnol arall.

2.3 Adolygu natur, hyd a lled, a chwmpas yr ymdriniaeth Archwilio Mewnol, a rhoi canllawiau o ran diffinio blaenoriaethau.

2.4 Cydgysylltu unrhyw arolygon ychwanegol drwy archwilio allanol, archwilio mewnol neu ddarparwyr ymgynghori ac archwilio eraill, ac adolygu ymatebion rheolwyr.

2.5 Sicrhau asesiad gwrthrychol o ddatganiadau ariannol diwedd-blwyddyn ac adroddiadau cysylltiedig, a chynghori'r Swyddog Cyfrifeg gyda golwg ar gymeradwyo'r datganiadau.

3. Aelodaeth

3.1 Cadeirydd Aelod annibynnol o'r Bwrdd Llywio

3.2 Aelodau

3.2.1 Aelod annibynnol o'r Bwrdd Llywio
3.2.2 Prif Weithredydd a Chofrestrydd; Swyddog Cyfrifeg
3.2.3 Cyfarwyddwr, FRM2, Adran Masnach a Diwydiant

3.3 Yn bresennol drwy wahoddiad

3.3.1 Cyfarwyddwr Cyllid

3.3.2 Ysgrifennydd y Pwyllgor Archwilio Ariannol

3.3.3 Rheolwr, Archwilio Mewnol, DTI

3.3.4 Cyfarwyddwr, NAO a Phennaeth Ymrwymiad Mewnol

3.4 Cworwm

3.4.1 Bydd y Pwyllgor wedi'i gyfansoddi'n briodol pan fydd dau o'r tri aelod parhaol yn bresennol, ac un o'r rheiny'n gorfod bod yn aelod annibynnol.

4. Amlder a lleoliad cyfarfodydd

4.1 Fel arfer cynhelir cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ariannol. Gall cyfarfodydd o'r fath gael eu cynnal yn Llundain, Caerdydd neu Gaeredin, p'un bynnag fydd y lleoliad mwyaf cyfleus a chost-effeithiol.

4.2 Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn bodloni costau teithio rhesymol a dynnir gan aelodau annibynnol.

4.3 Cedwir cofnodion pob cyfarfod. Caiff cofnodion eu dangos a'u cylchredeg i aelodau wneud sylwadau amdanynt a chytuno arnynt o fewn deg diwrnod gwaith i bob cyfarfod, a'u cylchredeg wedyn ymhlith aelodau'r Bwrdd Llywio.

5. Dyletswyddau

5.1 Derbyn adroddiadau gan yr adran Archwilio Ariannol Mewnol (a chyrff eraill sy'n darparu sicrwydd), ynghyd ag ymateb rheolwyr, o bryd i'w gilydd.

5.2 Trafod materion o bwys yn codi o'r adroddiadau hynny gydag unrhyw aelod o'r Pwyllgor Archwilio Ariannol (neu unrhyw berson arall), ynghyd ag ymateb rheolwyr.

5.3 Rhoi cymorth a chyngor i'r Swyddog Cyfrifeg ar faterion yn ymwneud â pholisi cyfrifeg, rheolaeth fewnol a Llywodraethu Corfforaethol.

5.4 Cyfrannu canllaw annibynnol ar reoli risgiau, rheoli a llywio ariannol, a monitro a chynghori ar fesurau a gymerir i reoli'r agweddau hynny yn unol â'r arferion gorau.

5.5 Ystyried y rhaglen anghenion archwilio o ran archwilwyr mewnol ac allanol fel ei gilydd, yr ymhlygiadau adnoddau sy'n codi, a ffynonellau gwasanaethau archwilio ac ymgynghori.

5.6 Cyflwyno adroddiad ar ei weithgareddau a'i gasgliadau i'r Bwrdd Llywio yn ôl sy'n briodol.

5.7 Cynghori ar ffurf a chynnwys y datganiadau ariannol blynyddol, ac adolygu'r datganiadau.

5.8 Gweithredu'n fan cyfeirio canolog ar gyfer archwilio mewnol, archwilio allanol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

5.9 Cwrdd ag archwilwyr mewnol ac allanol yn annibynnol os gwelir bod angen.